## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

## 28 Tachwedd 2023, rhwng 12.30 a 13.30

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Clara Gibbs | Cymdeithas Alzheimer Cymru |
| Luke Pickering-Jones | Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr |
| Jake Smith | Gofalwyr Cymru |
| Catherine Charlwood | Rhaglen IDEAL, sefydliad REACH: Y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Heneiddio ac Iechyd Gwybyddol |
| Christina Oakes | Gwelliant Cymru |
| Michaela Morris | Gwelliant Cymru |
| Andrew Woodhead | Lleisiau Dementia |
| Nigel Hullah | Lleisiau Dementia |
| Ceri Higgins | Lleisiau Dementia |
| Heather Wenban | GIG Cymru |
| Rhys Hughes | Swyddfa Rhun ap Iorwerth, Arweinydd Plaid Cymru |
| Valerie Billingham | Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Polly Winn | RNID |
| Luke Fletcher AS | Plaid Cymru |
| Padraig McNamara | Llywodraeth Cymru |
| Sally Hewitt | Llywodraeth Cymru |
| Jayne Bryant AS | Llafur Cymru |
| Hywel Iorwerth | Comisiynydd y Gymraeg |
| Monica A Bason-Flaquer | Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru |

**Cofnodion**

Cafodd Luke Fletcher ei ethol yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia.

Cafodd Cymdeithas Alzheimer ei hailethol fel Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol.

**Lynne Neagle AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant – y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia**

Cyhoeddwyd y cynllun gweithredu yn 2018. Yna, cafodd dogfen atodol, sef 'Cynllun Gweithredu Dementia: Cryfhau'r ddarpariaeth mewn ymateb i COVID-19', ei chyhoeddi ym mis Ebrill 2022. Mae'r broses o weithredu'r cynllun gweithredu yn cael ei goruchwylio gan y Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia.

Mae 11 o'r 44 o gamau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen ategol wedi'u cyflawni. Mae rhai o'r camau sy'n weddill yn ymrwymiadau hirdymor. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £12 miliwn o gyllid rheolaidd i'r cynllun gweithredu, gan gynnwys £3 miliwn ar gyfer darparu cymorth yn ystod y broses asesu a diagnosis. Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n cael cyllid lynu wrth y Safonau Gofal Dementia, sef safonau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gafodd eu datblygu gan sefydliad Gwelliant Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar wella data diagnostig. Mae 28 o dimau asesu'r cof yng Nghymru yn gweithio gyda Gwelliant Cymru at ddibenion gwella'r broses asesu a diagnosis. Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i fyrddau iechyd ar gofnodi diagnosis o ddementia. (https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-03/cofnodi-codau-read-dementia-whc-2022-007.pdf) Mae gwaith yn mynd rhagddo rhwng Gwelliant Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru o ran dadansoddi'r data ar y gofrestr ddementia yn y sector gofal sylfaenol.

Yn gychwynnol, bydd data diagnosis ar gael yn chwarterol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Yna, bydd y drefn yn symud tuag at broses o adrodd yn fisol.

Mae pecyn cymorth ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cynorthwyo sefydliadau i droi'r "fframwaith gwaith da" yn arfer da.

Pecyn gweithredu dysgu a datblygu ar gyfer gofal a chymorth dementia | Gofal Cymdeithasol Cymru

Ym mis Hydref y llynedd, cyhoeddwyd y Fframwaith Dementia Cymru ar gyfer Proffesiynau Perthynol i Iechyd. Mae'r fframwaith hwnnw'n nodi 4 maes blaenoriaeth allweddol, sef: ymwybyddiaeth a mynediad at weithwyr AHP; gwella ac arloesi; cyd-gynhyrchu a chydweithredu; ac arweinyddiaeth a dysgu.

Fframwaith Dementia Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Cymru | LLYW.CYMRU

Mae Gwerthusiad Interim o'r cynllun gweithredu wedi dod i law. (Gwerthusiad o Gynllun Gweithredu ar gyfer Dementia 2018-2022: Adroddiad cryno interim (llyw.cymru)) Roedd y Gweinidog yn teimlo bod yr ymatebwyr yn gadarnhaol am effaith y cynllun, gan nodi mai'r canfyddiad oedd ei fod wedi gosod pobl sy'n byw gyda dementia yn ganolog iddo ac wedi hwyluso gweithio ar draws sectorau. Roedd consensws bod y cynllun wedi gwneud dementia yn flaenoriaeth i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi bod anghysondebau o ran y gwasanaethau a ddarperir ar draws Cymru, a'r ffaith bod angen gwreiddio nifer o'r newidiadau dros y tymor hwy.

Mewn ymateb i gwestiynau gan ddau siaradwr, cytunodd y Gweinidog fod angen gwneud mwy o waith i feithrin capasiti a sgiliau Cymraeg yng ngweithlu'r GIG, fel y gellir cynnal asesiadau dementia yn Gymraeg.

Ym marn un o gynrychiolwyr Lleisiau Dementia a oedd yn bresennol, nid yw pobl â phrofiad byw yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn y broses o weithredu a gwerthuso'r cynllun gweithredu ar gyfer dementia. Dywedodd nad yw'r cynllun yn cynrychioli arfer gorau o ran cyd-gynhyrchu.

Gwnaeth hyrwyddwr ym maes dementia a oedd hefyd yn bresennol bwysleisio'r rôl y gall gwella iechyd yn gyffredinol ei chwarae yng nghyd-destun dementia.

**Gobeithion am gynllun gweithredu newydd ar gyfer dementia**

Cyflwynodd Nigel Hullah o sefydliad Lleisiau Dementia y sesiwn hon. Pwysleisiodd y ffaith bod pob person yn profi dementia mewn ffordd wahanol, ac felly nid yw darparu gwasanaethau drwy un dull sy'n addas i bawb yn gweithio. Dywedodd hefyd fod y modd y mae'r gwerthusiad yn y cynllun gweithredu yn ymdrin â rhanddeiliaid yn rhy gyfyng. Mae Lleisiau Dementia yn argymell creu grŵp ehangach o randdeiliaid ar gyfer y gwerthusiad, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn gynhwysol. Dywedodd Nigel y byddai modd i Lywodraeth Cymru wella ei gwaith cyfathrebu ynghylch y camau nesaf ar gyfer y cynllun gweithredu dementia. Dylid cyhoeddi cofnodion y Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia, a dylai gwefan Llywodraeth Cymru gynnwys tab sy'n rhoi mynediad i bopeth.

Soniodd person arall a oedd yn bresennol am y bwlch rhwng gwasanaethau meddygol a gwasanaethau cymdeithasol, a'r problemau sy’n codi pan nad oes cydgysylltu rhyngddynt.